Cynllun Datblygu Lleol 2021 > 2036

Cyngor Caerdydd - Mai 2026

# Arholiad CDLl Newydd Caerdydd

## Sesiwn Gwrandawiad 5
## Y Gymraeg

## Datganiad Cyngor CD12 mewn Ymateb i Gwestiynau'r Arolygwyr yn ID08e




www.cdllcaerdydd.co.uk
02920 872087
CDL@caerdydd.gov.uk


Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English

CRYFACH TECACH GWYRDDACH

CARDIFF CAERDYDD

# Cyngor Caerdydd

# Cynllun Datblygu Lleol Newydd

# Archwiliad

---

**Sesiwn Gwrandawiad 5 – 09.30-13.00, 12 Mehefin 2026**

**Neuadd y Sir**

**Y Gymraeg**

**Mater - A yw'r CDLl yn darparu fframwaith effeithiol a digon uchelgeisiol i hyrwyddo'r Gymraeg.**

## 1. Agor a chyflwyniadau

## 2. Ydy'r CDLl yn gwneud digon i hyrwyddo'r Gymraeg?

2.1. A ddylai Polisi SP15 fod yn gryfach a datgan na fydd cynigion a fyddai'n cael effaith andwyol neu o anfantais sylweddol ar hyfywedd a bywiogrwydd y Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg yn cael eu caniatau oni bai bod mesurau penodol i liniaru'r effeithiau negyddol?

**Ymateb:**

Mae'r Cyngor o'r farn bod y Cynllun yn sicr yn gwneud mwy na'r CDLl a fabwysiadwyd ar hyn o bryd i hyrwyddo'r Gymraeg. Dyma'r tro cyntaf i bolisi strategol ar y Gymraeg gael ei gynnwys mewn Cynllun ar gyfer Caerdydd - ac yn wir ar gyfer y rhan hon o Gymru - polisi sy'n datgan bod Caerdydd yn Ardal o Bwysigrwydd Ieithyddol.

Mae'r Cynllun yn ceisio gwneud cymaint o ddefnydd â phosibl o'r canllawiau a'r cyfarwyddyd sydd ar gael o fewn cyfyngiadau deddfwriaethol a'r canllawiau cynllunio presennol ac mae'n ceisio dysgu o brofiad ardaloedd cynllunio eraill yng Nghymru sydd wedi mabwysiadu polisïau a strategaethau cynllunio sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

Bydd y polisi am y tro cyntaf yn sicrhau bod cynigion datblygu mawr newydd yn rhoi ystyriaeth gydwybodol i'r Gymraeg yn gynnar yn y broses gynllunio, yn dilyn canllawiau Comisiynydd y Gymraeg ar benderfyniadau polisi. Mae pwyslais arbennig hefyd yn y polisi hwn ar hyrwyddo *ffyniant a thwf* o'r Gymraeg, lawn cymaint â cheisio diogelu'r nifer o siaradwyr sydd gennym yn ein cymunedau. I'r perwyl hwnnw, mae'r Cyngor o'r farn y gall y Cynllun fod yn ychwanegiad pwysig at bolisïau a strategaethau eraill y Cyngor yn y maes iaith.

Mae'r polisi ei hun yn nodi:

SP15: ...Ni chaniateir cynigion defnydd tir sy'n cael effaith andwyol neu anfantais sylweddol ar hyfywedd a bywiogrwydd y Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg – oni bai bod

mesurau penodol sy'n cryfhau'r effeithiau cadarnhaol a/neu ddileu/lliniaru'r effeithiau negyddol.’

Ymhellach:

‘6.127 Bydd disgwyl i gynigion barchu'r elfen Gymraeg wrth enwi datblygiadau a hefyd dilyn arfer da wrth enwi nodweddion penodol yn Gymraeg, fel rhan o'r ymdrech i greu lleoedd. Bydd absenoldeb defnydd o'r Gymraeg yn tanseilio'r strategaeth a bydd yn mynd yn groes i'r polisi hwn.’

Mae'r Cyngor yn cadarnhau y byddai’n hapus i ystyried newid pwyslais y geiriad polisi gyda'r nod o'i gryfhau os byddai hynny'n ateb y pryder a godwyd.

Byddai'r Cyngor hefyd yn croesawu gweld gweithredu gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol ar argymhellion perthnasol a gynigir yn *Adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ar Gynllunio Gwlad a Thref (Chwefror 2025)* yn enwedig yr argymhellion hynny sy'n berthnasol i Gymru gyfan. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwnnw ar ôl paratoi'r polisi hwn, ond rydym yn ei weld fel ychwanegiad pwrpasol ac amserol i'r drafodaeth hon.

2.2. Sut y bydd y Cyngor yn asesu cadernid Datganiadau Sefyllfa'r Gymraeg?

**Ymateb:**

Er mwyn cynorthwyo'r broses hon, bydd y Cyngor yn paratoi CCA y Gymraeg a fydd yn darparu canllawiau manylach ar luniad a'r weithdrefn ar gyfer asesu Datganiadau Sefyllfa, fel y nodir yn 7.305. Yn seiliedig ar y blynyddoedd diwethaf, y rhagdybiaeth fras yw y bydd angen sgrinio tua 200 o geisiadau’r flwyddyn. Ni fyddai disgwyl i fwy na thua 12 i 15 o'r ceisiadau hynny gael eu hystyried ar gyfer proses Asesiad Llawn o’r Effaith ar y Gymraeg gyda'r tebygolrwydd y bydd angen i 2 i 3 o'r rheini bob blwyddyn baratoi Asesiad Llawn o’r Effaith a Chynllun Gweithredu.

Byddai'r sgrinio yn cael ei gynnal gan y Gwasanaeth Cynllunio mewn ymgynghoriad â staff polisi Caerdydd Ddwyieithog. Yn ogystal â thynnu ar arbenigedd adrannau eraill y Cyngor, byddai hefyd yn bosibl sefydlu is-banel ymgynghorol o randdeiliaid allanol y Gymraeg o aelodaeth allanol Fforwm Partneriaid Caeryddd Ddwyieithog i gynorthwyo gydag asesu a sgrinio ceisiadau. Byddai mewnbwn panel y Fforwm ynghyd â thynnu ar arbenigedd ymgynghorwyr allanol hefyd yn ystyriaethau ymarferol wrth asesu'r ceisiadau lle ystyrir bod angen Asesiad Llawn o’r Effaith ar y Gymraeg ac wrth werthuso'r Asesiadau hynny ac unrhyw Gynlluniau Gweithredu sy'n deillio ohonynt.

## 3. A ddylai'r cynllun geisio sicrhau bod mwy na 50% o ysgolion newydd yn rhai cyfrwng Cymraeg?

3.1. Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022 i 2031 (CSCA) y Cyngor yn datgan nod y Cyngor o sicrhau Caerdydd gwirioneddol ddwyieithog. Mae’n

mynd ymlaen i ddweud '*Rydym wedi cymryd camau mawr tuag at y weledigaeth hon, ond ni allwn orffwys ar ein rhwyfau. Mae gennym ragor i'w wneud o hyd er mwyn sicrhau bod prifddinas Cymru yn fan lle mae'r Gymraeg yn iaith fyw a bywiog y mae pob person ifanc yn cael cyfle i'w chlywed, ei siarad a'i mwynhau ym mhob agwedd ar eu bywydau ac yn cael ei chydnabod fel iaith sy'n agos at galon prifddinas ein cenedl.'*Ym mharagraff 7.295 mae'r CDLl yn disgwyl i ddatblygiad gyfrannu at gyflawni targedau'r CSCA drwy gymhwyso egwyddorion cymdogaethau cynaliadwy i sicrhau bod gan bob dysgwr fynediad at ddarpariaeth addysg Gymraeg.

i. A yw'r nod o sefydlu 50% o unrhyw ddarpariaeth ysgol newydd ar safleoedd tir llwyd fel darpariaeth Gymraeg yn ddigon uchelgeisiol i alluogi nodau'r CSCA i gael eu gwireddu?

**Ymateb:**

Mae'r Cyngor yn cadarnhau na fyddai gwarantu y byddai 50% neu yn wir unrhyw ganran uwch na hynny o'r ddarpariaeth addysgol newydd ar safleoedd tir llwyd yn ddarpariaeth Gymraeg ar ei ben ei hun yn ddigonol i gyflawni'r targedau CSCA presennol. Bydd safleoedd tir llwyd newydd yn ystod cyfnod y Cynllun yn arwain at gynnydd canrannol cymharol fach yn stoc dai gyffredinol y ddinas. Fodd bynnag, byddai'r safleoedd hyn yn ychwanegol at y safleoedd strategol maes glas mawr a nodwyd yn y CDLl presennol a fydd hefyd bellach yn treiglo yn eu blaen i'r Cynllun. Byddai hyn yn golygu y byddai yr ymrwymiad "o leiaf 50%" y CSCA presennol yn parhau i fod yn weithredol ar draws pob prif safle datblygu yn y ddinas dros gyfnod y cynllun newydd.

Nid yw'r Cyngor wedi gallu cyrraedd targedau blynyddol y CSCA ar gyfer blynyddoedd cyntaf y cynllun am sawl rheswm. Un yw'r gostyngiad cyffredinol yn y gyfradd eni, ail reswm yw nifer y tai a gwblhawyd a lefel y gweithgaredd adeiladu ar y datblygiadau strategol maes glas presennol, yn rhannol oherwydd effaith Covid. Yn ogystal, wrth gynllunio lleoedd ysgol newydd rydym hefyd yn ymaflyd â hawl rhieni i ddewis a phroblem ymarferol agosrwydd unrhyw ddarpariaeth. Gyda'i gilydd, mae'r ffactorau hyn yn golygu, er enghraifft, nad oes pwysau ar hyn o bryd ar leoedd addysg lleol yn y safleoedd maes glas strategol hynny a fyddai'n gyrru'r angen am ddarpariaeth addysgol newydd yn yr ardaloedd yna. Mae'n debyg y byddai'r un peth yn wir hefyd am safleoedd tir llwyd o dan y Cynllun, sef y byddai'r twf a ddymunir ei weld yn y ddarpariaeth Gymraeg yn dibynnu i raddau ar gyfuniad o fesurau polisi mewnol a ffactorau allanol, rhai ohonynt y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol yr awdurdod. Fodd bynnag, byddem yn asesu'r sefyllfa yn barhaus o ran y data demograffig diweddaraf, nifer y cyflawniadau tai a'r rhagamcanion cyflawni a'r niferoedd sy'n cymryd lleoedd ysgol bob blwyddyn ac yn cyflwyno mesurau i'n cynorthwyo i gyrraedd ein targedau CSCA cyfrwng Cymraeg.

ii. A ddylai'r gofyniad ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg fod ym Mholisi C4 yn hytrach na'i gyfiawnhad rhesymegol?

**Ymateb:**

Mae'r Cyngor yn cytuno y byddai hyn yn cryfhau'r polisi. Fodd bynnag, dylid nodi bod gan yr awdurdod opsiynau eraill heblaw'r CDLl i gynyddu nifer y rhai sy'n dysgu Cymraeg. Yn ogystal â'r CSCA a'r berthynas agos rhyngddo a Strategaeth Hybu Caerdydd Ddwyieithog, mae Deddf y Gymraeg ac Addysg 2025 yn ddatblygiad deddfwriaethol newydd o bwys a fydd yn dechrau dylanwadu ar y CSCA cyfredol, a fydd hefyd yn cael ei ddiwygio yn 2026/7 i osod targedau newydd ar gyfer ail hanner y CSCA presennol. Bydd y Ddeddf newydd, fodd bynnag, yn darparu ar gyfer Fframwaith Cenedlaethol a chyfundrefn CSCA newydd i'w cyflwyno ar ddiwedd y degawd yn unol ag amserlen newydd y Ddeddf, gyda thargedau CSCA newydd ar gyfer awdurdodau o hynny ymlaen yn cael eu gosod gan Lywodraeth Cymru. Bydd y Ddeddf hefyd yn cael effaith sylweddol ar ddarpariaeth addysg Gymraeg yn ein hysgolion cyfrwng Saesneg presennol; felly rydym yn disgwyl i gynlluniau strategol CSCA newydd LlC wrth iddynt esblygu fod yn fwy hollgynhwysol na'r iteriad presennol ac mae'n debygol y bydd rheiny yn gorgyffwrdd ag ail hanner cyfnod y Cynllun hwn.

Mae'r Cyngor hefyd yn nodi bod angen diweddaru maen prawf iii Polisi C4 y gellir ei gynnwys yn yr ymgynghoriad ar Newidiadau Materion sy'n Codi sydd ar ddod, felly y bydd yn darllen fel a ganlyn:

*iii. Ystyried ~~gofyniad/strategaeth i ddarparu cyfleusterau addysg digonol i ddarparu ar gyfer y twf arfaethedig yng nghyfran plant a phobl ifanc y Ddinas sy'n gallu siarad Cymraeg~~* ***dyletswyddau statudol y Cyngor o dan Ddeddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 i gynllunio a sicrhau darpariaeth ysgol ddigonol sy'n cefnogi dilyniant, parhad a thwf mewn addysg Gymraeg, er mwyn cynyddu cyfran y plant a'r bobl ifanc sy'n gallu defnyddio'r Gymraeg yn hyderus ac yn annibynnol.***

iv. A fyddai 'o leiaf' yn galluogi'r Cyngor i sicrhau mwy pe bai'n cael ei ystyried yn angenrheidiol?

**Ymateb:**

Mae'r Cyngor yn cytuno bod y cyfeiriad hwn ym mharagraff 7.231 sy'n datgan y bydd y Cyngor yn '*Ceisio sefydlu o leiaf 50% o'r ddarpariaeth lleoedd ysgol newydd ar safleoedd y Cynllun Datblygu Lleol fel darpariaeth Gymraeg*' yn sicrhau digon o hyblygrwydd i sicrhau mwy os ystyrir y bydd yn angenrheidiol.

## 4. Camau Gweithredu